@YsgolGymraeg
www.ysgolgymraeg.cymru

e-bost
prif@ysgolgymraeg.ceredigion.sch.uk

Ysgol Gymraeg
Aberystwyth

Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plascrug, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1HL
Ffôn / *Tel:* 01970 617613

Pennaeth / *Headteacher:* Mr Gareth L James

## Un penwythnos i fynd

Unwaith eto mae'r gwyliau haf bron ar ben ac mae'n amser paratoi at ddychwelyd i'r ysgol. Bydd yr ysgol ar gau i blant ar ddydd Mawrth a dydd Mercher y 1af ac 2ail o Fedi oherwydd hyfforddiant staff. **Bydd y tymor newydd yn cychwyn i'r plant i gyd ar ddydd Iau y 3ydd o Fedi 2026.** Croeso cynnes arbennig i'r rheiny ohonoch sy'n cychwyn yn yr ysgol am y tro cyntaf.

## Diwrnod Cyntaf

Cofiwch fod disgwyl i'r plant wisgo gwisg ysgol. Mae gennym eitemau ail law ar werth – os hoffech brynu gwisg cyn dychwelyd cysylltwch gyda Mrs Wendy James 01970 617613 i drefnu i ddod mewn ar yr 1af neu 2ail.
Byddwch yn derbyn copïau papur amrywiol ar ddiwrnod cyntaf y tymor – taflen casglu gwybodaeth, llythyr caniatâd ac ati. Cadwch lygad amdanynt ym mag eich plentyn.

## Trefniadau bore a phrynhawn

- **Boreau**
  8:30 – Mi gofiwch eich bod fel rhieni yn medru **dod i mewn i adeilad yr ysgol gyda'ch plant yn y boreau yn ystod y deuddydd cyntaf**. Bydd hyn yn gyfle i chi weld ystafell ddosbarth eich plentyn a dod i adnabod yr athrawon a'r staff cefnogi. Byddwch yn medru gwneud hyn felly ar ddydd Iau 3ydd a Gwener 4ydd o Fedi, ac yn cael mynediad i'r ysgol ar ôl 8:30yb. Disgwylir i bawb **adael y safle cyn 9 o'r gloch** er mwyn i ni gofrestru'r plant a chychwyn ein amser dysgu. Yr wythnos ganlynol mi fyddwn yn dychwelyd i'r drefn o ollwng wrth y giât o 8:30yb ymlaen. Mae croeso i rieni plant y Meithrin fynd trwy giatiau'r prif fynedfa at ddrysau'r Meithrin yn ddyddiol.
- **Prynhawniau – trefniadau casglu**
  Bydd yr un drefn yn parhau gyda'r plant yn cael eu trosglwyddo nôl i chi fel rhieni a gwarcheidwaid ar ddiwedd y dydd
  - 3:20 – Meithrin – i'w casglu o ddrws y Meithrin (sesiwn y bore yn gorffen am 11:50)
  - 3:20 – Derbyn – i'w casglu o ddrws y prif fynedfa
  - 3:25 – Bl.1a2 – i'w casglu o giatiau'r ysgol
  - 3:30 – Bl.3,4,5a6 – i'w casglu o giatiau'r ysgol

## Clwb Cynnar

Bydd y Clwb Cynnar ar agor yn ddyddiol eleni eto. Medrwch ollwng eich plant am 8:15yb i fynychu'r Clwb. Mae'n rhaid fod y plant yn mynychu'r ysgol yn llawn amser er mwyn mynychu'r Clwb Cynnar. Er mwyn i ni gael amcan o'r niferoedd fydd yn mynychu mae angen i chi gofrestru cyn iddynt gychwyn yn y clwb am y tro cyntaf drwy e-bostio swyddfa@ysgolgymraeg.ceredigion.sch.uk Mae'r clwb hwn am ddim.

## Clwb Ar Ôl Ysgol

Bydd y Clwb Ar Ôl Ysgol yn parhau gan ddilyn yr un drefn ar gyfer y flwyddyn academaidd hon. Bydd dolen Forms yn cael ei hanfon allan yn wythnosol ar gyfer archebu lle ar gyfer yr wythnos ganlynol. Mae'n rhaid fod y plant yn mynychu'r ysgol yn llawn amser er mwyn mynychu'r Clwb Ar Ôl Ysgol. Y gost ar gyfer y Clwb yw £8 y noson y plentyn. Mae'r Clwb yn cau am 5:15yp **Ar gyfer archebu lle dydd Iau a Gwener nesaf, bydd dolen yn cael ei gyrru atoch heddiw.**

## Gwaith adeiladu

Mae'r gwaith adeiladu yn dod yn ei flaen yn dda, a bydd yn parhau trwy gydol eleni. Gobeithir y bydd y gwaith ar ardal allanol newydd sbon y Meithrin a Derbyn yn dod i ben cyn i'r plant ddychwelyd ddydd Iau nesaf, ond o bosib bydd yn parhau ddiwrnod neu ddau i mewn i gychwyn y tymor.

**Os oes gennych unrhyw bryderon am les neu ddatblygiad addysgol eich plentyn yna cysylltwch â mi ar unwaith.**

**Yn gywir,**
**Gareth L James**
**Pennaeth, 28/08/2026**
www.ysgolgymraeg.cymru

@YsgolGymraeg
www.ysgolgymraeg.cymru

e-bost
prif@ysgolgymraeg.ceredigion.sch.uk

Ysgol Gymraeg
Aberystwyth

Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plascrug, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1HL
Ffôn / *Tel:* 01970 617613

Pennaeth / *Headteacher:* Mr Gareth L James

## *One weekend left to go...*

*As the summer holidays come to an end, it's time to start preparing for the new school year. Please note that the school will be closed to pupils on Tuesday and Wednesday, the 1st and 2nd of September, due to staff training.* ***The new term will begin for all pupils on Thursday, the 3rd of September 2026.*** *A special warm welcome to all those joining us for the first time.*

## *First Day*

*Please remember that children are expected to wear school uniform. We have second-hand items available for sale – if you would like to purchase uniform before returning to school, please contact Mrs Wendy James on 01970 617613 to arrange to come in on the 1st or 2nd. You will receive various paper copies on the first day of term – an information collection sheet, a consent letter, etc. Please keep an eye out for them in your child's bag.*

## *Morning and afternoon arrangements*

- ***Mornings*** *:*
  *8:30 – Just a reminder that parents are welcome to* ***come into the school building with their children during the first couple of mornings of the first week of term****. This will be an opportunity for you to see your child's classroom and meet the teachers and support staff. You will be able to do this on Thursday 3rd and Friday 4th of September, having access to the school after 8:30am. Everyone is expected to* ***leave the school before 9 o'clock*** *so that we can register the children and start our learning day. The following week we will return to the arrangement of dropping off at the gate from 8:30 onwards. Meithrin parents are welcome to walk through the gates to the Meithrin door daily.*
- ***Afternoons – collection arrangements***
  *The same arrangements will continue, with children being handed over to parents and guardians at the end of the day.*
  *3:20 – Meithrin/Nursery – to be collected from the Meithrin door (morning session ends at 11:50)*
  *3:20 - Reception - to be collected from the front door*
  *3:25 - Yrs.1and2 - to be collected from the main gates*
  *3:30 - Yrs.3,4,5&6 - to be collected from the main gates*

## *Early Bird Club*

*The Early Bird Club will be open daily again this year. You can drop your children off at 8:15am to attend the Club. Children must attend school full-time in order to attend the Early Bird Club****.*** *In order for us to have an estimate of the numbers that will attend you need to register before they start for the first time by emailing swyddfa@ysgolgymraeg.ceredigion.sch.uk. There is no charge for this club.*

## *After School Club*

*The After School Club will continue following the same procedure for this academic year. A Forms link will be sent out weekly for booking for the following week. Children must attend school full-time in order to attend the After School Club. The cost for the Club is £8 per night per child. The Club is open until 5:15pm.* ***A link for Thursday and Friday next week will be sent out today.***

## *Building work*

*The building work on the new extension is progressing well and will continue throughout this year. It is hoped that work on the new outdoor area for Nursery and Reception will be completed before the children return next Thursday, although it may continue for a day or two into the start of the term.*

***If you have any concerns about your child's welfare or educational development, then please contact me immediately.***

***Yours sincerely,***
***Gareth L James***
***Headteacher***
***28/08/2026***
www.ysgolgymraeg.cymru